**Agenda**

**ELL 04-01(agd)**

**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 14 Chwefror 2001

**Amser:** 2.00 pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Agenda**

**Eitem 1: Adroddiad gan Weinidog y Cynulliad (45 munud)**

***Papur: ELL 04-01(p.1)***

Dyma adroddiad misol i'r Pwyllgor am faterion y mae'r Gweinidog yn delio â hwy ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys eitemau y mae'r Aelodau wedi gofyn i'r Gweinidog roi adroddiad amdanynt. Mae'r adroddiad yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau ar brynhawn dydd Llun cyn cyfarfod y Pwyllgor er mwyn sicrhau ei fod mor ddiweddar â phosibl.

**Eitem 2: Cyflwyniad gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (30 munud)**

***Papur: ELL 04-01(p.2)***

Mae'r Pwyllgor wedi gwahodd Cadeirydd a Phrif Weithredwr Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i roi gwybodaeth iddynt am yr hyn a wnaed hyd yma a'r gwaith a drefnwyd ar gyfer y dyfodol.

Cyflwyniad gan yr Athro John Andrews, Cadeirydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a'r Prif Weithredwr, Gary Brace

**Eitem 3: Blaenraglenni Gwaith Strategol (20 munud)**

***Papur: ELL 04-01(p.3)***

Yn unol â rheol sefydlog 9.9 mae’n ofynnol i bob pwyllgor pwnc fod â rhaglen dreigl o waith sy’n cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf. Mae hyn yn cynnwys y fframwaith ar gyfer busnes y pwyllgor yn ystod y 18 mis nesaf. Mae pob pwyllgor pwnc yn derbyn blaenraglenni gwaith y lleill ac yn cael cyfle i roi sylwadau arnynt a chlustnodi meysydd cyffredin.

Derbyn a lleisio barn ar y blaenraglenni gwaith strategol canlynol:

**Pwyllgor Diwylliant *ELL 04-01(p.4)***

**Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth *ELL 04-01(p.5)***

**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol *ELL 04-01(p.6)***

**Pwyllgor Llywodraeth Lleol a Thai *ELL 04-01(p.7)***

| **Bydd y Pwyllgor yn torri am 15 munud** |
|---|

**Eitem 4: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch (40 munud)**

***Papur : ELL 04-01(p.8)***

Fel rhan o’i adolygiad polisi o addysg uwch yng Nghymru, mae’r Pwyllgor wedi gwahodd UCM Cymru i roi cyflwyniad llafar i ategu’r cyflwyniad ysgrifenedig a ddaeth i law.

Cyflwyniad gan Craig Owen, Llywydd, UCM Cymru - Safbwynt Myfyrwyr ar yr Adolygiad o Addysg Uwch.

**Eitem 5: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch (45 munud)**

***Papur: ELL 04-01(p.9)***

Er bod ei adolygiad yn canolbwyntio ar addysg uwch yng Nghymru, daeth y Pwyllgor i’r

casgliad na fyddai’n gyflawn heb glywed barn y sector addysg bellach. Felly, estynnodd wahoddiad i’r Fforwm i roi cyflwyniad ar ran y sector addysg bellach.

Cyflwyniad gan John Stephenson, Cadeirydd, Fforwm ar Rôl Sefydliadau Addysg Bellach Cymru mewn Addysg Uwch yng Nghymru.

**Eitem 6: Cofnodion Cyfarfodydd 31 Ionawr**

***Papur: ELL 02-01(min)***